

## Penodi Cadeirydd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru

Mae'n gyfnod cyffrous i Dysgu a Sgiliau yng Nghanolbarth Cymru. Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol yn gweithio gydag arweinwyr busnes a rhanddeiliaid ar draws y rhanbarth i ddeall y ddarpariaeth sgiliau ac anghenion y farchnad waith er mwyn sbarduno buddsoddiad sy'n bodloni gofynion y cyflogwyr a'r gweithlu.

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol (RSP) ddydd Llun 12 Medi, pan fydd enw'r Cadeirydd newydd yn cael ei gyhoeddi.

Rydym yn awyddus i benodi unigolyn ysbrydoledig â'r cymwysterau addas o'r sector breifat i Gadeirio'r grŵp. Person busnes (cwmni preifat) fydd y cadeirydd hwn â chanddo fuddiannau busnes yng Nghanolbarth Cymru. Bydd ganddo/ganddi ddiddordeb a dylanwad ar draws sir ac ar lefel is-ranbarthol. Disgwylir mai cyflogwr lleol sylweddol ag effaith ar y gadwyn gyflenwi leol, ranbarthol a chenedlaethol fydd buddiannau busnes y Cadeirydd a disgwylir y bydd modd iddo ddefnyddio'r buddiannau busnes hyn.

Bydd Cadeirydd Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Canolbarth Cymru yn chwarae rhan allweddol wrth helpu i sbarduno gweledigaeth y rhanbarth ar gyfer dysgu a sgiliau, gan gynrychioli llais y sector preifat yn y rhanbarth er mwyn dylanwadu a chefnogi penderfyniadau rhanbarthol a hyrwyddo'r rhanbarth ar lefel Genedlaethol.

Diben y bartneriaeth Dysgu a Sgiliau yw:

- Gwella'r gwaith o gasglu a rhannu data ar gyflogaeth ranbarthol, sgiliau a deallusrwydd.
- Nodi anghenion busnesau a'r gweithlu presennol a'r dyfodol yn y rhanbarth.
- Cyhoeddi Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau ac adroddiadau eraill sy'n benodol i'r sector pan fo angen.
- Sicrhau bod y seilwaith dysgu a sgiliau yn diwallu anghenion economaidd a chymdeithasol Canolbarth Cymru.

Bydd hyn yn gofyn am unigolyn sy'n gallu dangos:

- Ei fod/ei bod yn Arweinydd yn y Diwydiant, yn enwedig o'r sectorau a nodir yn y [Weledigaeth](#).
- Gwybodaeth a phrofiad o'r gwahanol sectorau diwydiant yn y Canolbarth;
- Profiad cryf o'r sector preifat;

- Arweinyddiaeth gref ac ethos partneriaeth;
- Dealltwriaeth o'r amgylchedd strategol ehangach ac ystyried hyn wrth gyflwyno argymhellion;
- Y gallu i gyfleu negeseuon cymhleth i amrywiaeth o gynulleidfaoedd gan gynnwys Llywodraeth Cymru;
- Profiad o gadeirio partneriaeth amrywiol ei natur a chyfarfodydd lefel uchel gan gynnwys amrywiaeth o bartneriaid allanol;
- Bod â diddordeb ac ymrwymiad i fuddiannau'r rhanbarth;

Mae'r swydd yn un wirfoddol gydag ymrwymiad o ryw 12 diwrnod y flwyddyn, yn fras.

### Ffurflen Enwebu


Gofynnir i ymgeiswyr gwblhau'r manylion a amlinellir yn y ffurflen isod a dychwelyd y ffurflen i [aggie.caesar-homden@powys.gov.uk](mailto:aggie.caesar-homden@powys.gov.uk) **erbyn Hanner dydd, ddydd Iau 25 Awst** a chynhelir y cyfweiliadau yn ystod yr wythnos yn dechrau dydd Llun 29 Awst.

I gael rhagor o wybodaeth am y rôl neu i drafod y cyfle ymhellach, cysylltwch â Rheolwr Partneriaeth yr RSP:

Aggie Caesar-Homden, [aggie.caesar-homden@powys.gov.uk](mailto:aggie.caesar-homden@powys.gov.uk) / 01597 826713

<b>Enw:</b>	
<b>Rôl:</b>	
<b>Sefydliad:</b>	
<b>Cyfeiriad:</b>	
<b>Ffôn:</b>	
<b>Ebost:</b>	

**Dywedwch wrthym (mewn dim mwy na 500 o eiriau) am eich addasrwydd ar gyfer y rôl. Dylai eich datganiad ddangos yn glir sut mae eich cefndir/profiad perthnasol yn ymwneud â'r rôl, a beth allai eich apwyntiad i'r rôl ei gynnig.**



## **HYSBYSIAD PREIFATRWYDD**

Diffinnir data personol o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) fel 'unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy gyfeirio at ddynodydd'.

Fel rhan o aelodaeth y Bartneriaeth, byddwn yn cysylltu â chi i drefnu cyfarfodydd, i anfon papurau atoch ar gyfer cyfarfodydd neu wybodaeth arall sy'n berthnasol i bwrpas y Bartneriaeth. Os ydym am ddefnyddio eich data personol am unrhyw reswm heblaw am bwrpas eich aelodaeth o'r grŵp, yna byddwn yn eich holi am hyn yn gyntaf. Byddwn yn cadw unrhyw wybodaeth gyswllt am oes y grŵp, neu eich rhan ynddo, ynghyd â 3 blynedd yn ychwaneg. Os nad ydych am fod yn aelod o weithgor mwyach, yna gallwch gysylltu ag ysgrifenyddiaeth y grŵp i gael dileu eich manylion.